DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB PERSON

Partneriaeth Aber Hafren, Ysgol y Gwyddorau Daear a'r Amgylchedd.

Côd Gwerthuso'r Swydd: 8518

Teitl y Swydd: Swyddog Prosiect Cynorthwyol Diogelu Aber Hafren i'r Dyfodol

Ysgol/Adran/Coleg: EARTH

Rheolwr Llinell: Cydlynydd Prosiectau Partneriaeth Aber Hafren

Cyflog: £25,249 (contract cyfnod penodol 12 mis)

CEFNDIR A DIBEN Y SWYDD

Mae Partneriaeth Aber Hafren (SEP) wedi derbyn cyllid gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 4), a weinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, i gefnogi ein prosiect "Diogelu Aber Hafren i'r Dyfodol".

Nod y prosiect yw gwella amddiffyniad a gwydnwch Ardal Forol Warchodedig Aber Hafren, sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol am ei chynefinoedd a'i bioamrywiaeth unigryw. Mae'r prosiect yn adeiladu ar dri degawd o waith cydweithredol ar draws yr aber, a bydd y fenter newydd hon yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni gweledigaeth SEP ar gyfer Aber Hafren cynaliadwy, ffyniannus.

Dros dair blynedd y prosiect (2025-2028), bydd camau gweithredu allweddol yn cynnwys:

1. Diweddaru'r Adroddiad am Gyflwr Aber Hafren (SOSER) i ddarparu data cadarn, cyfredol ar gyfer monitro a gwneud penderfyniadau amgylcheddol, gan gynnwys datblygu cynllun ar gyfer casglu data a thystiolaeth arfaethedig, a chynnal ymchwil a chyflwyno cynhadledd data a thystiolaeth ym mlwyddyn olaf y prosiect.

2. Cefnogi menter Bird Aware Severn, gan helpu i leihau aflonyddwch gan weithgareddau hamdden ar boblogaethau adar sensitif.

3. Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol a chefnogi ymdrechion i wella ansawdd dŵr.

4. Grymuso dinesydd-wyddonwyr i helpu i fonitro a diogelu bioamrywiaeth gyfoethog yr aber.

Bydd y myfyriwr ar leoliad yn cefnogi diweddaru’r adroddiad am Gyflwr Aber Hafren ac yn cyfrannu at fentrau dinesydd-wyddoniaeth dinasyddion a gefnogir gan SEP.

Bydd y myfyriwr yn cyfrannu at ystod eang o dasgau i gefnogi SEP a'i randdeiliaid, gan helpu i gasglu, asesu a chyfathrebu data yn effeithiol wrth sicrhau cyfranogiad rhanddeiliaid a chymunedau.

Mae'r rôl hon yn cynnig gweithio hyblyg, cyfunol, gan dreulio amser yn swyddfa SEP ac o bell, fel y cytunwyd â'r rheolwr llinell. Bydd y myfyriwr yn gweithio gyda SEP, a gynhelir gan Brifysgol Caerdydd, a bydd angen iddo deithio ar draws ardal Aber Hafren fel rhan o waith cyflawni'r prosiect.

Ariennir y prosiect Diogelu Aber Hafren i’r Dyfodol gan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur a'i gyflwyno gan y Gronfa Dreftadaeth ar ran Llywodraeth Cymru.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Prif Ddyletswyddau

- Delio ag ystod o ymholiadau gan randdeiliaid a phartneriaid Aber Hafren mewn ffordd broffesiynol.
- Gweithio gydag eraill i wneud argymhellion ar gyfer datblygu a gwella adroddiad Partneriaeth Aber Hafren am Gyflwr Aber Hafren (SOSER).
- Meithrin perthynas waith dda â phwyntiau cyswllt allweddol i helpu i wella cyfranogiad a chyfathrebu
- Ymgymryd ag amrywiaeth o ddyletswyddau gweinyddol i gefnogi tîm SEP.
- Casglu ac adolygu data i ddiweddaru’r fframwaith Cyflwr Aber Hafren, gan wneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn gywir a thynnu sylw at dueddiadau a phatrymau sylfaenol i'ch rheolwr llinell.
- Cyfrannu'n weithredol at lwyddiant Partneriaeth Aber Hafren a Phrosiect Diogelu Aber Hafren i’r Dyfodol.

Dyletswyddau Penodol

Gan weithio gyda chydlynydd y prosiect, tîm SEP a phartneriaid allweddol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn:

- Nodi a chasglu data a thystiolaeth ychwanegol i'w mewnbynnu i'r SOSER, trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid;
- Sicrhau ansawdd a dadansoddi data presennol a data a gesglir yn y maes

- Datblygu argymhellion ar gyfer monitro a/neu ddiweddariadau i'r cynllun casglu data a thystiolaeth yn y dyfodol.
- Cynorthwyo gydag unrhyw fentrau gwyddoniaeth dinasyddion a gefnogir gan SEP, gan gynnwys cysylltu â gwirfoddolwyr a dadansoddi data a gesglir gan ddinesydd-wyddonwyr

Arall:

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid yn unol â'r tasgau uchod
- Cynorthwyo gyda chyflwyno a hwyluso gweithdai a digwyddiadau, gan gynnwys Fforwm blynyddol Aber Hafren
- Cynorthwyo'r Swyddog Cyfathrebu gyda chyhoeddusrwydd, cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd cyfryngau eraill yn unol â'r rôl.

Dyletswyddau Cyffredinol:

- Cadw at holl bolisïau Partneriaeth Aber Hafren a Phrifysgol Caerdydd ac ymgymryd â datblygiad personol a phroffesiynol priodol.
- Cyflawni dyletswyddau eraill nad ydynt wedi'u nodi uchod ond sy'n cyd-fynd â gofynion y swydd.
- Cynnal Gwerthoedd ac Ymddygiad y Gwasanaethau Proffesiynol

MANYLEB PERSON

Rydym yn awyddus i gyflogi pobl sydd ag ystod eang o brofiadau. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob rhan o'r gymuned, beth bynnag fo'u rhyw, eu hethnigrwydd, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hunaniaeth draws, statws eu perthynas, eu crefydd neu eu cred, eu cyfrifoldebau gofalu neu eu hoedran. Rydym yn arbennig o awyddus i gael ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndiroedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y Brifysgol, gan gynnwys pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Bydd eich cais yn cael ei asesu yn unol â'r meini prawf hanfodol a dymunol canlynol ar gyfer y swydd. Ar ôl copïo'r adran hon a'i gludo i mewn i ddogfen newydd, rhowch enghreifftiau clir sy'n dangos sut rydych yn bodloni pob maen prawf, a hynny drwy ysgrifennu o dan bob un. Cewch gyfeirio at elfennau o unrhyw agwedd ar eich bywyd (e.e. gwaith, cartref, addysg/cymwysterau, bywyd cymunedol) cyn belled â'ch bod yn canolbwyntio ar eu perthnasedd i'r swydd.

**Sut i Wneud Cais**

I wneud cais am y swydd hon, anfonwch CV a llythyr eglurhaol sy'n manylu ar sut rydych chi'n bodloni'r fanyleb rôl i severn@cardiff.ac.uk erbyn 5pm ddydd Gwener 27 Mawrth

2026. Nodwch deitl y swydd yn llinell bwnc eich e-bost. Bydd dyddiadau cyfweliadau yn cael eu cadarnhau ar ôl y dyddiad cau ond disgwylir iddynt gael eu cynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 13 Ebrill 2026.

Dyma'r meini prawf a gaiff eu defnyddio hefyd i asesu'r ymgeiswyr ar y rhestr fer mewn cyfweliad a/neu drwy ddulliau eraill (e.e. prawf sgiliau).

**Meini Prawf Hanfodol**

1. Gallu cyflawni amrywiaeth o dasgau gweinyddol, gan gynnwys ysgrifennu adroddiadau.

2. Profiad o ddefnyddio pecynnau TG swyddfa cyffredin (e.e. MS Office, e-bost ac ati), yn ogystal ag unrhyw feddalwedd dadansoddi data perthnasol.

3. Gallu cyfathrebu ag amrywiaeth eang o bobl mewn modd effeithiol a chwrtais ond cynnal safonau proffesiynol, gan addasu eich iaith a'ch dull o gyfathrebu gan ddibynnu ar bwy rydych yn cyfathrebu â nhw.

4. Gallu gweithio'n dda gyda'ch tîm, gan wybod sut i roi cyngor, arweiniad ac adborth (i gydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd) fel y bo'n briodol.

5. Hunangymhelliant gyda'r gallu i gynllunio a threfnu eich llwyth gwaith eich hun o fewn amserlenni cytunedig fel y nodir gan eich Rheolwr Llinell, p'un a ydych yn gweithio o bell neu yn y swyddfa.

6. Gallu cymryd y cam cyntaf i ddatrys problemau ac ymateb i ymholiadau, gan ddod o hyd i'r ateb gorau a'i gynnig.

7. Dealltwriaeth dda o faterion amgylcheddol, economaidd a diwylliannol sy'n wynebu cymunedau arfordirol

8. Profiad â thystiolaeth o ddadansoddi data mewn setiau data meintiol ac ansoddol

9. Bod yn rhan o'r ffordd trwy gwrs gradd perthnasol neu wedi cwblhau dwy flynedd o gwrs gradd israddedig

**Meini Prawf Dymunol**

1. Yn gyfarwydd ag arfordir Aber Hafren ac yn wybodus amdano, gan gynnwys ei brif nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd

2. Profiad o weithio gydag ystod eang o bartneriaid allanol, fel y rhai a geir mewn lleoliadau aml-randdeiliaid

3. Profiad o ddefnyddio Gwasanaethau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS)

3. Gallu siarad/deall Cymraeg, neu barodrwydd i ddysgu'r iaith

SUT Y BYDDWN YN EICH HELPU I GYFLAWNI’R SWYDD HON

Rydym am eich cefnogi a'ch datblygu yn y swydd. Felly, byddwn yn defnyddio cyfuniad o'r canlynol i'ch helpu i wireddu eich llawn botensial.

1. Cyfarfodydd un-i-un rheolaidd ag arweinydd eich tîm.

2. Tîm profiadol a chefnogol o'ch cwmpas.

3. Cymorth i hyfforddi a datblygu mewn ffordd sy’n berthnasol i'r swydd, fel y nodir gan eich rheolwr llinell.

4. Cymorth i ddysgu Cymraeg neu loywi eich sgiliau iaith

5. Presenoldeb mewn digwyddiadau a chynadleddau perthnasol